Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 25 Hydref 2016

Presennol: A. Mummery, (Cadeirydd), J. Roberts, A. Jones, G. Parry, G. C. Jones, Mervyn Jones, Meirion Jones, S. Edwards, H. Huws, D. Williams, E. Parry
J. Evans (Cynghorwr Sirol)
Dafydd Owen (clerc)

		Gweithred	Dyddiad
1.0	**Ymddiheuriadau**:		
	A. Williams, D. James,		
1.1	Croesawyd A. Mummery ar ran y Cyngor Bro I E. Parry yn ôl i'r Cyngor Bro ar o lei anaf.		
2.0	**Datganiadau Diddordeb**.		
	Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.		
3.0	**Cyfrifon Mis Awst a Hydref 2016**		
	J. Roberts yn cynnig, G. Parry yn eilio. Derbyniwyd y cyfrifon Awst fel rhai cywir. J. Roberts yn cynnig, A. Jones yn eilio. Derbyniwyd y cyfrifon Hydref fel rhai cywir.		
4.0	**Materion y Cyngor Sir**		
4.1	Meirion Jones syn nodi bod ymgynghoriad Horizon yn dod i ben ar 25 Hydref 2016. Nodwyd bod ymateb y Cyngor Bro wedi ei ddrafftio gan G. C. Jones ac wedi ei yrru mewn . Nodwyd bod protest wedi ei drefnu ar 26 Hydref I gychwyn am 4:00yh yn Nhalwrn ynglŷn â'r ymgynghoriad Grid Cenedlaethol.		
4.2	G. C. Jones wedi mynychu cyfarfod arbennig o'r Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymunedau ac yn nodi ei fod wedi cael cyngor ar ymateb i ymgynghoriadau.		
4.3	Meirion Jones yn nodi bod Pwyllgor Gwaith wedi gwneud cynnig ar Gyllideb 2017/18 ac yn cadarnhau ei fod yn mynd i ymgynghoriad am fis.		
4.4	Meirion Jones yn nodi bod gwaith ail-wynebu Lon Refail wedi ei wneud ac yn canmol safon y gwaith a'r systemau rheoli traffic ynynstod y gwaith. Nodwyd hefyd bod y Cyngor Sir wedi cwblhau gwaith ail-linellu yn y Maes Parcio.		
4.5	A. Mummery yn nodi bod Ysgol Llanfairpwll yn uchel iawn ar niferoedd o blant, ac yn nodi bod pryder am nifer o blant o du allan i'r dalgylch sydd yn mynychu. Clerc I drefnu cael adroddiad gan Richard Edward (cynrychiolwyr llywodraethwyr) o bob cyfarfod.	**D. Owen**	
5.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 27 Medi 2016**		
5.1	J. Roberts yn cynnig, A. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.		
6.0	**Materion yn codi**		
6.1	Twr Marcwis - A. Mummery am adrodd yn ôl pan fydd ganddo ddiweddariad	**A. Mummery**	
6.2	Plac ar dy Kyffin Williams - Meirion Jones wedi trafod gydag Asiant Stad Plas Newydd ac yn disgwyl gwybodaeth bellach. Meirion wedi derbyn pris am blac ac yn barod i gwblhau'r archeb. Meirion wedi gwneud ymholiadau ac yn nodi bod dim o deulu agos Kyffin yn byw yn yr ardal bellach. Meirion Jones wedi cysylltu â Phrif Athro Ysgol Llanfair ac yn nodi bod yr ysgol yn fodlon caniatáu plant ysgol i fynychu'r gwasanaeth. O gysidro'r trefniant o gael plant ysgol I Pwllfanogl, cynigwyd G. C. Jones, eiliwyd gan J. Roberts a chytunwyd yn unfrydol i gynnal y gwasanaeth ym Mis Mai 2017.	**Meirion Jones a S. Edwards**	**Mai**
6.3	Llwybr beicio - H. Huws yn nodi bod angen rhoi marciau newydd ar y ffordd. Clerc I hysbysu'r Cyngor Sir.	**D. Owen**	**29/11/16**
6.4	Grant memorials fund am waith ar y cloc - Clerc wedi cysylltu ag Aber Anglesey Stone, nodwyd nad ydynt yn galw allan ar safle i wneud gwaith. S. Edwards am ofyn I Saer	**S. Edwards a D. Owen**	**29/11/16**

	mae'n ei adnabod i gysylltu â'r clerc i gael pris am y gwaith.		
6.5	Offer cadw'n heini yn y Maes Chwarae - S. Edwards yn nodi bod B. Jones wedi cadarnhau bod Ffrindiau'r Parc a'r Gors dal i weithredu. Nodwyd bod cwynion wedi derbyn am gyflwr y pafiliwn gyda sbwriel ar ol defnydd gan y Clwb Pêl Droed Iau. Clerc I yrru llythyr i'r Glwb Ieuenctid yw hysbysu am y cwynion a gofyn iddynt weithredu i glirio sbwriel.	**D. Owen**	**29/11/16**
6.6	Ffens rhwng cae pêl droed a Threm Eryri - A. Mummery yn nodi A. Parry dal heb weithredu. Mervyn Jones yn cynnig, S. Edward yn eilio i ofyn I North Wales Fencing I wneud gwaith dros dro ac i gael pris i amnewid y ffens yn gyfan.	**A. Mummery**	**29/11/16**
6.7	Tagfeydd traffic Ffordd Caergybi/Ffordd Penmynydd - Clerc I gysylltu ag Adran Priffyrdd CSYM I ofyn iddynt gysidro ymestyn llinellau melyn yn y mannau yma.	**D. Owen**	**29/11/16**
6.8	Trustees y Neuadd Goffa - Meirion Jones yn nodi ei fod wedi cysylltu â'r Charities Commission, ac mai dim ond J. Roberts sydd ar ol o'r Trustees gwreiddiol ac mae angen apwyntio rhai newydd.	**M. Jones a J. Roberts**	**29/11/16**
7.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Fynwent 11 Hydref 2016**		
7.1	G. Parry yn cynnig, J. Roberts yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.		
8.0	**Materion yn codi o'r cyfarfod**		
8.1	G. Parry yn nodi bod dim gwaith mawr ei angen yn y Fynwent felly nod oes angen rhoi dim ar gyllideb 2017/18		
8.2	Cytunwyd I'r clerc holi Cynghorau eraill i wedi beth yw eu ffioedd nhw yn eu mynwentau i allu cymharu.	**D. Owen**	**29/11/16**
9.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Cyllid 2016**		
9.1	J. Roberts yn cynnig, A. Mummery yn eilio. Derbyniwyd fel rhai cywir.		
10.0	**Materion yn codi o'r cyfarfod**		
10.1	Nodwyd bod y rhodd o £500.00 wedi ei yrru I Gronfa Eisteddfod Genedlaethol Môn		
10.2	Clerc yn disgwyl amcan bris gan Alwyn Roberts I wneud gwaith yn y pafiliwn gyda'r cais yswiriant.		
11.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Pwyllgor Amgylchedd ac Eiddo 11 Hydref 2016**		
11.1	A. Jones yn cynnig, G. C. Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir		
12.0	**Materion yn codi o'r cyfarfod**		
12.1	Cytunwyd I archebu coeden dau ddeg a pum troedfedd i'w danfon cychwyn Rhagfyr	**D. Owen**	
12.2	Gwirfoddolwyr - S. Edwards yn nodi ei fod yn nabod dipyn y byddai yn gallu helpu ar noson y gwasanaeth os oes angen		
12.3	Elusennau - Cytunwyd I Bwyllgor Amgylchedd ac Eiddo wneud y penderfyniad ar ba ddwy elusen i wneud casgliad i ar y noson. Meirion Jones syn cynnig Tŷ Gobaith		
12.4	Cytunwyd i roi rhodd o £50 (pum deg punt) i fand Deiniolen am berfformio ar y Noson.		
13.0	**Rheolau Sefydlog y Cyngor Bro**		
13.1	A. Mummery yn cynnig, Meirion Jones yn eilio i dderbyn bod y rheolau dal yn gywir a pherthnasol.		
14.0	**Rheoli Risg y Cyngor Bro**		
14.1	G. C. Jones yn nodi ei fod yn fodlon cael golwg arno a rhoi ei awgrymiadau ar newidiadau neu welliannau yn y Flwyddyn Newydd. A. Mummery yn cynnig, Meirion Jones yn eilio, cytunwyd i dderbyn y cynnig.	**G. C. Jones**	**2017**
15.0	**Polisi Iaith y Cyngor Bro**		
15.1	Meirion Jones yn nodi ei fod wedi derbyn sylwadau gan y Cyngor Sir ar y Cynllun presennol ac maent wedi nodi ei fod yn dderbyniol. Cytunwyd I'w rhoi I'r Gyngor Bro Tachwedd 2016 I gael golwg arno, wedyn bydd angen gyrru copi i'r comisiynydd iaith cyn ei gymeradwyo.	**D.Owen**	**29/11/16**

16.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
16.1	21C160F/DEL - Cais o dan Adran 73 I dynnu amod (05) Datganiad Dull Ecolegol) mewn perthynas ag unedau 9 I 11, (06) (Datganiad Dull Ecolegol), (07) (Trwydded Ewropeaidd ar gyfer Rhywogaethau a Ddiogelir) o ganiatâd cynllunio rhif 21C160 (Newid defnydd adeiladau allanol yn Llwyn Onn Farm, Llanfairpwll - Nodwyd nod yw'r cais hwn yn nalgylch Llanfairpwll felly dim sylwadau i'w wneud		
16.2	39C561/FR/TR - Cais llawn ar gyfer codi canolfan Zorb ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau a maes parcio ar dir ger The Lodge Ffordd Caergybi, Porthaethwy - Sylwadau'r Cyngor Bro I fod yr un fath a'r cais blaenorol.	**D. Owen**	
17.0	**Gohebiaeth**		
17.1	Ambiwlans Awyr - Llythyr diolch - Derbyn y wybodaeth		
17.2	Cyngor Sir - Cyfrif 2016 Pobl sy'n cysgu allan - Derbyn y wybodaeth		
17.3	Grid Cenedlaethol - Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru - Derbyn y wybodaeth		
17.4	Cyngor ar Bopeth- llythyr diolch - Derbyn y wybodaeth		

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 29 Tachwedd 2016 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd…… (Cadeirydd) …… Dyddiad